CYNGOR CYMUNED EGLWYSWRW COMMUNITY COUNCIL.

Cynhalwyd cyfarfod o'r Cyngor Cymuned, Nos Fawrth 4ydd o Hydref 2016 yn yr Hen Ysgol Eglwyswrw gan gychwyn am 8.00y.h.

Presennol

Cadeirydd: Julie Charlton

Cynghorwyr: Enid Cole, Ceirwyn John, Ieuan Davies, Robin Phillips, Lon Davies

Cynghorydd Sir: Cyng Keith Lewis

Clerc: Helen Evans

Croeso'r Cadeirydd:

Croesawodd y cadeirydd yr aelodau I'r cyfarfod. Estynwyd Cydymdeimlad a Brenda James a'r teulu ar golli Hywel yn ddiweddar.

Ymddiheiriadau:- Llinos Davies, Alwyn Evans

Cofnodion 06.09.16

Cynigodd Robin Phillips ac eiliodd Ieuan Davies fod y cofnodion yn gywir. Arwyddwyd y cofnodion gan y Cadeirydd.

Materion yn codi o'r cofnodion

52 – Palmant- Mae Cyng. K. Lewis dal mewn cysylltiad a Atkins Construction ac hefyd gyda'r cymdogion lleol sydd yn cael ei effeithio gan y datblygiad ee tir.

Gohebiaeth

53. Cyfieithu'r Iaith – Roedd gan Julie Charlton pryder ynglyn a iaith mae'r cyfarfodydd yn cael ei gynnal a'I bod ddim yn medru dilyn yn effeithiol fel Cadeirydd. Ar ol trafodaeth fe penderfynnwyd cynnal y cyfarfodydd yn Saesneg.
54. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. a Mrs. Butler Dolgoed, Pontyglasier- Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi dderbyn.
55. Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. D. Lewis, Brynafon, Brynberian. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi dderbyn.
56. Cyngor Sir Benfro – Cais Cynllunio Mr a Mrs. Milner, Brynvilla, Eglwyswrw – Cais ar gyfer estyniad 2 lawr I'r ochor ogleddol y ty. Roedd pawb yn hapus gyda'r cais.
57. Cyngor Sir Benfro – Mrs. O. James, Ffynnonwen, Eglwyswrw – Hysbyseb cynllunio ar gyfer adeilad amaethyddol.
58. GIG Cymru – Gweithdy Grwp Cyfeirio Rhanddeiliaid – Fe fydd y wybodaeth yma yn yr hysbysfwrdd.
59. Gwybodaeth ymgynghori ar gyfer cais cynllunio – Mr Aled Rees, Treclyn Isaf, Eglwyswrw – Dymchwel adeiladau presennol ac adnewyddu gyda adeilad modern, parlwr godro newydd a estyniad I lagwn slyri. Roedd pawb yn hapus gyda'r wybodaeth. Helen I ddanfon llythyr o gefnogaeth.

Unrhyw Fater Arall

60. Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro – Cais Cynllunio Mr. M Standeven, Coed Devonald, Eglwyswrw. Llythyr I cadarnhau bod y cais wedi dderbyn.
61. Cyfanswm yn y Banc 25.9.2016 - £3,313.14
62. Cyngor Sir Benfro – Cais cynllunio Plas y Coed, Eglwyswrw - Rhyddhau amod 5 o'r cais cynllunio – amodau wedi'u rhyddhau yn rhannol.
63. Cyngor Sir Benfro – Hysbysiad Cyhoeddus Ffordd ar gau C3068 Rhoshill I Eglwyswrw ar gyfer gwaith Telecom dydd Llun 10fed o Hydref. Fe fydd y wybodaeth yn yr hysbysfwrdd.
64. Mae Mr a Mrs Burns, Tygwyn, Eglwyswrw wedi bod mewn cysylltiad a'r Cyng. Keith Lewis ynglyn a coeden ar clawdd ffin yr Ysgol. Cyng. Keith Lewis wedi bod mewn cysylltiad a'r Cyngor Sir er mwyn penderfynnu y ffordd orau ymlaen I cael ei dynistrio.
65. Mae'r Cyng. Ieuan Davies yn pryderus am y cyflymdra mae ceir ac loriau yn teithio trwy Ffynnongroes. Mae'r Cyng Keith Lewis yn edrych I mewn er mwyn cael arwyddion camera cyflymder.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf: Nos Fawrth 6ed o Rhagfyr am 8.00y.h.

Terfynwyd y Cyfarfod am 8.45y.h.